# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
# 17 Ionawr 2002

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

**Cynnwys**

1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes
3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
6 Cwestiynau i Bwyllgor y Tŷ

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

### Ysgolion Bach Cymreig

**C6 Mick Bates:** Beth yw'r diffiniad o ysgol fach Gymreig? (OAQ15002)

**Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (Jane Davidson):** Nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi mabwysiadu diffiniad o ysgol fach. Os oes rhaid diffinio ysgol fach at ddibenion ystadegol, y duedd yw naill ai cyfeirio at ysgolion cynradd â 50 o ddisgyblion neu lai (mae 14 y cant o ysgolion cynradd Cymru yn y categori hwn); neu byddwn yn defnyddio diffiniad y Comisiwn Archwilio o ysgol fach, sef â llai na 90 o ddisgyblion ar gofrestr ysgolion cynradd, llai na 600 o ddisgyblion ar gofrestr y grŵp 11 i 16 oed mewn ysgolion uwchradd, a llai na 700 o ddisgyblion ar gofrestr ysgolion uwchradd lle ceir chweched dosbarth.

### Darparu Bwyd Iachus yn Ysgolion Gwladol Cymru

**C7 John Griffiths:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y camau diweddaraf i ddarparu bwyd iachus yn ysgolion gwladol Cymru? (OAQ14924)

**Jane Davidson:** Rydym yn benderfynol o gynnal a gwella iechyd ein pobl ifanc. Rydym yn mynd ar drywydd hyn drwy gyflwyno safonau maeth sylfaenol ar gyfer prydau ysgol a chynlluniau megis rhwydwaith cynlluniau ysgolion iach Cymru, gwobr curiad calon i ysgolion a chynllun siop ffrwythau mewn ysgolion. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn rhedeg cynllun i ddarparu llaeth am ddim i bob disgybl yng Nghyfnod Allweddol 1.

### Mynd i'r Afael â Thrais yn Erbyn Staff Ysgolion

**C8 Jonathan Morgan:** Pa fesurau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i fynd i'r afael â thrais yn y gweithle yn erbyn staff ysgolion? (OAQ14902)

**Jane Davidson:** Mae'n amlwg bod trais yn erbyn staff mewn ysgolion, boed hynny o du'r disgyblion, y rhieni neu eraill, yn annerbyniol. Ceir canllawiau eisoes ynghylch sut i ymateb i ddigwyddiadau treisgar ar safleoedd ysgolion ac mae athrawon yn cael defnyddio grym rhesymol i atal disgyblion mewn sefyllfaoedd penodol, gan gynnwys eu hatal rhag peri niwed personol. Credaf fod rhaid i ni hefyd roi blaenoriaeth i gamau a anelir at atal problemau rhag codi yn y lle cyntaf.

### Clustnodi ac Annog Disgyblion Dawnus

**C9 Nick Bourne:** Sut mae'r Gweinidog yn bwriadu helpu ysgolion i glustnodi ac annog disgyblion dawnus? (OAQ14905)

**Jane Davidson:** Nod Llywodraeth Cynulliad Cymru yw chwalu'r rhwystrau sy'n atal plant rhag cael yr addysg y maent yn ei haeddu. Mae'r ddogfen ymbaratoi, 'Y Wlad sy'n Dysgu' yn cymell ysgolion i ystyried anghenion pob plentyn, 'beth bynnag fo'u doniau a'u talentau'.

Yr wyf wedi gofyn i ACCAC ddatblygu cynigion ar ganllawiau ymarfer gorau ym maes adnabod plant dawnus a thalentog a darparu'r addysg effeithiol sydd ei hangen arnynt er mwyn iddynt gyflawni hyd eithaf eu gallu.

### Trothwyon Tâl Perfformiad

**C10 Eleanor Burnham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar sut mae'r arian a gafodd ei roi yn y gyllideb eleni i ariannu trothwyon tâl perfformiad athrawon yn cymharu â dyraniad y llynedd? (OAQ15013)

**Jane Davidson:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gwneud ymrwymiad i ariannu'n llawn gostau trefniadau trothwyon tâl i athrawon ar gyfer 2000-01 a 2001-02. Nodwyd swm o £13.7 miliwn yn setliad refeniw llywodraeth leol ar gyfer 2000-01 a £26.545 miliwn yn 2002-02 gydag elfen grant arbennig o £2.47 miliwn. Mae hyn ar gyfer cyflogau a'r costau cysylltiedig (yswiriant gwladol/cyfraniadau pensiwn) i athrawon sydd yn llwyddo yn yr asesiad trothwy. Seiliwyd y cyllid hwn ar dybiaethau ynghylch nifer yr athrawon a fyddai'n ymgeisio ac yn llwyddo, ond gan ddweud, petai unrhyw awdurdod yn gweld bod ei gyfran naill ai o'r £13.7 miliwn neu'r £29.015 miliwn yn annigonol, y byddai'n derbyn cyllid ychwanegol.

Yn ddiweddar, gofynnwyd i'r awdurdodau gyflwyno ceisiadau ar gyfer unrhyw ddiffyg yn 2000-01 a bydd adroddiad grant arbennig yn cael ei gyflwyno i'r Cyfarfod Llawn cyn diwedd y flwyddyn ariannol hon. Dilynir trefn debyg ar gyfer 2001-02.

### Lleihau Maint Dosbarthiadau Babanod

**C11 Karen Sinclair:** A wnaiff y Gweinidog roi adroddiad ar hynt ei hymdrechion diweddar i leihau maint dosbarthiadau babanod? (OAQ14907)

**Jane Davidson:** Dengys yr ystadegau a gyhoeddwyd gan y Cynulliad ym mis Tachwedd 2001 mai dim ond mewn 75 o ddosbarthiadau babanod yng Nghymru (1.7 y cant) yr oedd dros 30 o ddisgyblion ym mis Medi 2001, o'u cymharu â 143 (3.3 y cant) ym mis Medi 2000 a 927 (24 y cant) yn 1998.

Yn y rhan fwyaf o'r dosbarthiadau lle'r oedd dros 30 o ddisgyblion ym mis Medi 2001, roedd un neu ddau o ddisgyblion a oedd wedi'u derbyn fel eithriadau derbyniol dros dro fel ag a ganiateir gan y gyfraith. Rhaid trefnu pob dosbarth o'r fath fel eu bod yn cynnwys dim mwy na 30 o ddisgyblion erbyn dechrau'r flwyddyn ysgol nesaf. Hefyd, cymerwyd camau ynghylch pob un o'r 20 dosbarth yr adroddwyd ym mis Medi bod ynddynt dros 30 o ddisgyblion heb reswm cyfreithiol dilys. Erbyn hyn, maent i gyd o fewn y terfyn statudol.

### Amddiffyn Staff Dysgu Rhag Ymosodiadau Treisgar

**C12 David Davies:** Sut mae'r Gweinidog yn bwriadu sicrhau bod staff dysgu yn cael eu hamddiffyn rhag ymosodiadau treisgar? (OAQ14895)

**Jane Davidson:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddais i OAQ 14902

### Disgyblion ag Anableddau Difrifol o Ran Dysgu Iaith

**C13 David Melding:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr addysg anghenion arbennig a ddarperir i ddisgyblion ag anableddau difrifol o ran dysgu iaith? (OAQ14900) [R]

**Jane Davidson:** Sefydlwyd gweithgor therapi i ystyried sut y gallai AALl ac awdurdodau iechyd gryfhau eu cydweithio a datblygu dulliau arloesol o weithrio i ddarparu therapi llefydd a iaith. Mae'r swyddogion yn ystyried ei argymhellion.

O 2002-03 ymlaen, bydd arian ychwanegol ar gael drwy grantiau cynnal addysg a hyfforddiant i hyfforddi athrawon a chynorthwywyr cynnal dysgu i gefnogi 'r ddarpariaeth leferydd a iaith mewn ysgolion.

### Cyfrifon Dysgu Unigol

**C14 Pauline Jarman:** Beth sydd wedi'i wneud i leddfu effaith diweddu'r cyfrifon dysgu unigol ar ddysgwyr yng Nghymru? (OAQ15012)

**Jane Davidson:** Bydd unigolion sydd wrthi'n dysgu ar hyn o bryd, neu y gwnaethpwyd ymrwymiad iddynt ynghylch dyddiad dechrau eu dysgu, yn derbyn eu harian o gyfrifon dysgu unigol yn unol â'r trefniant, a bydd y rhai sydd wedi defnyddio rhan o'u cyfrifon yn cael y cyfle i ddefnyddio'r gweddill. Gofynnais i Gyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant gyflwyno rhaglen i olynu'r cynllun, gan adeiladu ar gryfderau'r cyfrifon, cyn gynted ag y bo modd. Mae llinell gymorth cyswlltdysgu yn cynnig cyngor ar ffynonellau nawdd ac ar amrywiaeth o raglenni sy'n cynnig mecanweithiau cefnogi gan gynnwys hyfforddiant i bobl ifanc ac oedolion, benthyciadau datblygu gyrfa a chyfleoedd y Fargen Newydd. Gall y swyddogion sy'n cefnogi myfyrwyr mewn sefydliadau addysg bellach ac uwch roi cyngor ynghylch yr arian mynediad a chaledi sydd ar gael, ac mae'r Cynulliad wedi cynyddu'r ddarpariaeth ar gyfer y rhain yn sylweddol eleni.

### Effaith y Gronfa Cyfleoedd Newydd ar Gyfleusterau Chwaraeon Ysgolion

**C15 Christine Chapman:** A wnaiff y Gweinidog roi adroddiad ar effaith debygol y gronfa cyfleoedd newydd ar gyfleusterau chwaraeon yn ysgolion Cymru? (OAQ14908)

**Jane Davidson:** Caiff y £48 miliwn sydd ar gael drwy gyfrwng y gronfa cyfleoedd newydd ei ddefnyddio i newid cyfleusterau chwaraeon er gwell mewn ysgolion yng Nghymru. Bydd y rhaglen yn cefnogi prosiectau sydd am adnewyddu neu adeiladu cyfleusterau chwaraeon dan do neu yn yr awyr agored at ddefnydd ysgolion a'r gymuned ehangach. Bydd y rhaglen yn ategu'r camau a gymerir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i roi sylw i argymhellion y tasglu addysg gorfforol a chwaraeon mewn ysgolion.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

### Darpariaeth Ddeintyddol yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru

**C9 Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch darpariaeth ddeintyddol yng nghanolbarth a gorllewin Cymru? (OAQ14937)

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Jane Hutt):** Rwyf wedi ymrwymo i sicrhau bod gwasanaeth deintyddol cynhwysfawr, o safon uchel, dan y GIG, ar gael i bawb sydd am ei ddefnyddio, ni waeth ymhle yng Nghymru y maent yn byw a byddaf yn parhau i weithio gydag awdurdodau iechyd Cymru i sicrhau bod y gwasanaeth hwnnw ar gael.

Mae cynllun deintyddol Cymru, a lansiwyd gyntaf yn 1995 eisoes wedi cael cryn lwyddiant wrth ddenu deintyddion newydd i'r rhannau hynny o Gymru lle'r oedd eu hangen fwyaf. I adeiladu ar sail y

llwyddiant hwnnw, rwyf wedi darparu cyllid ychwanegol fel bo modd parhau gyda'r cynllun a'i wella, a byddaf yn cyhoeddi trydydd y cynllun cyn bo hir.

**Amseroedd Aros am Driniaethau ar gyfer Heroin**

**C10 Peter Black:** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i leihau'r amseroedd aros am driniaethau ar gyfer heroin yng Nghymru? (OAQ14944)

**Jane Hutt:** Mae triniaeth yn flaenoriaeth allweddol yn strategaeth Cymru ar gyfer mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau. Fodd bynnag, rwy'n bryderus ynghylch y cyfnodau aros am driniaeth a dyna pam y penderfynais gynyddu'r gronfa ar gyfer triniaethau cyffuriau ac alcohol i £2 filiwn ar gyfer y flwyddyn ariannol hon a'i chynyddu ymhellach yn 2003-04 i bron i £3 miliwn.

**Rhoi ar Waith y Cynigion yn 'Gwella Iechyd yng Nghymru'**

**C11 Ieuan Wyn Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad byr ar yr amserlen ar gyfer rhoi ar waith y cynigion yn 'Gwella Iechyd yng Nghymru: Cynllun ar gyfer yr NHS gyda'i Bartneriaid'? (OAQ14957)

**Jane Hutt:** Cwblheir y prif ddiwygiadau strwythurol erbyn mis Ebrill 2003 pan fydd yr awdurdodau iechyd yn cael eu dileu a'u cyfrifoldebau'n cael eu trosglwyddo'n ffurfiol i'r strwythur newydd. Sefydlir tîm byrddau iechyd lleol a phartneriaethau i gynorthwyo cyfarwyddwr GIG Cymru i gynllunio goruchwylio, gweithredu a monitro'r broses o reoli'r newid strwythurol. Bydd cynllun prosiect ar gyfer gweithredu'r diwygiadau strwythurol ar gael fis nesaf. Bydd hwn yn nodi'r gwaith yn y prif feysydd canlynol:

- Adnoddau dynol
- Systemau, polisïau a phrosesau
- Rheolaeth trosiannol
- Datblygu partneriaethau a threfniadau comisiynu a Chomisiwn Gwasanaeth Iechyd Arbenigol i Gymru
- Ailddosbarthu swyddogaethau awdurdodau iechyd
- Ailgynllunio'r gwasanaethau cynghori proffesiynol
- Gwerthuso'r systemau cyfredol a rhai'r dyfodol
- Costio'r strwythurau newydd

Mae'r gwaith ar weithredu ystod llawn yr ymrwymiadau yn 'Gwella Iechyd yng Nghymru – Dyfodol Gofal Sylfaenol' yn mynd rhagddo a bydd ei amserlen a'i gerrig milltir allweddol yn cael eu cynnwys mewn rhaglen weithredu, a fydd ar gael cyn bo hir. Trefnaf i gopïau fod ar gael yn Llyfrgelloedd y Cynulliad.

**Gwella Gwasanaethau Canser yng Ngogledd Cymru**

**C12 Eleanor Burnham:** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i wella gwasanaethau canser yn rhanbarth gogledd Cymru? (OAQ14939)

**Jane Hutt:** Rhwydweithiau clinigol ar gyfer gofal canser yw'r ateb i'r her o gynllunio a darparu gwasanaethau canser o safon uchel ledled Cymru. Yng ngoleuni'r ymrwymiad yn 'Gwella Iechyd yng Nghymru', mae tri rhwydwaith canser wedi'u sefydlu erbyn hyn, ac mae un o'r rhain yn gwasanaethu'r gogledd. Bydd y rhwydweithiau hyn yn sbarduno datblygiad gwasanaethau canser drwy roi safonau sylfaenol a chanllawiau clinigol ar waith i wella'r canlyniadau i gleifion.

## Datblygu'r Rhwydwaith Ysbytai Cymunedol

**C13 Peter Law:** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i ddatblygu'r rhwydwaith ysbytai cymunedol ledled Cymru? (OAQ14945)

**Jane Hutt:** Cyhoeddwyd polisi ar swyddogaeth a dyfodol ysbytai cymunedol yn 1996 yn yr adroddiad 'Community Hospitals in Wales—the Future'. Esboniodd yr adroddiad beth yw potensial ysbytai cymunedol wrth brynwyr a darparwyr gwasanaethau.

Roedd y canllawiau hynny'n cydnabod bod angen ysbytai llai, lleol i ddarparu amrywiaeth o wasanaethau ar sail angen lleol. Y neges allweddol oedd y dylai fod gan bob ysbyty cymunedol swyddogaeth glir y cytunir arni'n lleol, gyda'r cyfleusterau a sgiliau'r staff sy'n adlewyrchu'r swyddogaeth honno.

Grwpiau iechyd lleol, Ymddiriedolaethau'r GIG a rhanddeiliaid allweddol eraill sy'n gyfrifol am ystyried a chytuno ar swyddogaeth eu hysbytai cymunedol fel rhan o gyflwyno'r agenda iechyd ehangach. Os yw'r rhanddeiliaid hyn o'r farn y byddai gwasanaeth lleol yn well drwy ehangu, addasu neu newid swyddogaeth eu hysbyty cymunedol, maent yn rhydd i wneud hynny, ar yr amod bod yr holl ofynion ymgynghori arferol a darpariaethau canllawiau 1996 uchod yn cael eu hystyried. Byddai angen i gynigion ar gyfer ysbytai newydd gael eu prosesu drwy'r mecanwaith cynllunio arferol.

## Gwella Gwasanaethau Gofal Lliniaru

**C14 Mick Bates:** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i wella gwasanaethau gofal lliniaru yng Nghymru? (OAQ14998)

**Jane Hutt:** Cyfrifoldeb yr awdurdodau iechyd yw darparu gwasanaethau gofal lliniaru ar hyn o bryd. Mae'r canllawiau a roddwyd i'r awdurdodau iechyd yn dweud y dylai pawb yng Nghymru gael mynediad at ofal lliniaru o'r un safon uchel ac y dylai'r GIG a'r mudiad hosbis gwirfoddol gydweithio er mwyn sicrhau bod hyn yn digwydd. Yn y pen draw, rhaid i'r awdurdodau iechyd benderfynu beth fydd patrwm y gwasanaethau, gan gadw mewn cof y gellir darparu gofal lliniaru mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd, gan gynnwys gartref, mewn cartref nyrsio neu ysbyty, yn ogystal ag mewn hosbis.

Mae swyddogion wrthi'n datblygu strategaeth gofal lliniaru i Gymru. Bydd y strategaeth hon yn seiliedig ar yr adroddiad ar wasanaethau gofal lliniaru a gomisiynwyd gan Bwyllgor Meddygol Cymru y llynedd. Mae Cymdeithas Gofal Hosbis a Lliniaru Arbenigol Cymru, yn ogystal â nifer o bobl broffesiynol sydd ar flaen y gad ym maes gofal lliniaru hefyd yn cyfrannu at ddatblygu'r strategaeth.

## Gwella Iechyd yn y Cymoedd

**C15 Geraint Davies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad byr ar y ffordd y mae'n bwriadu gwella iechyd poblogaeth y Cymoedd? (OAQ14994)

**Jane Hutt:** Rydym yn cydnabod y ffactorau sy'n effeithio ar iechyd pobl ac mae ein polisïau'n mynd i'r afael â'r rhain ar gyfer pobl yn y Cymoedd ac mewn rhannau eraill o Gymru. Bydd y cynllun 'Gwella Iechyd yng Nghymru' yn golygu bod y GIG yn chwarae rhan bwysig yn y bartneriaeth gydag eraill, tra bo'n strategaeth hybu iechyd genedlaethol wedi arwain at raglen gydlynol o weithredu cenedlaethol a lleol sy'n cynnwys y GIG, llywodraeth leol, ysgolion, cyflogwyr a mudiadau gwirfoddol. Mae'r gronfa anghydraddoldebau iechyd yn cynorthwyo camau newydd yn y Cymoedd, tra bo rhaglenni megis Rhoi Cymunedau'n Gyntaf ac Amcan 1 hefyd yn mynd i'r afael â 'r ffactorau cymdeithasol ac economaidd sy'n effeithio ar iechyd.

## Cwestiynau i Bwyllgor y Tŷ

### Ailddechrau Gwaith ar y Siambr Newydd

**C1 Owen John Thomas:** All y Pwyllgor roi adroddiad ar y datblygiadau diweddaraf o ran penderfynu ar y dyddiad ar gyfer ailddechrau gwaith ar y Siambr newydd? (OAQ14928) [W] ***Trosglwyddwyd ar gyfer ateb ysgrifenedig.***

**Y Dirprwy Lywydd (John Marek):** Nid yw Pwyllgor y Tŷ yn rhan o'r broses dendro ac felly nid oes ganddo unrhyw wybodaeth am y datblygiadau diweddaraf o ran ailddechrau'r gwaith ar y Siambr newydd. Hwyrach yr hoffech ailgyfeirio'ch cwestiwn at y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau.

### Ailgylchu Caniau a Gwydr

**C2 Peter Black:** Pa gamau sy'n cael eu cymryd i gynyddu nifer y biniau ar gyfer ailgylchu caniau a gwydr o amgylch Tŷ Crucywel? (OAQ14926) ***Trosglwyddwyd ar gyfer ateb ysgrifenedig.***

**Y Dirprwy Lywydd:** Ar hyn o bryd, nid oes gennym unrhyw finiau ar gyfer ailgylchu gwydr yn yr adeilad oherwydd y peryglon posibl i iechyd a diogelwch. Rydym wedi ystyried rhoi man casglu yn y maes parcio, ond mae'n amheus a wneid llawer o ddefnydd o finiau y tu allan fel hyn.

Fodd bynnag, rydym yn parhau i ystyried gwahanu'r gwastraff gwydr a'r deunydd cyffredinol a gesglir gennym drwy drafod gyda'r contractiwr gwaredu gwastraff. Rydym hefyd yn ystyried dulliau posibl o gynyddu faint o wastraff cardfwrdd a ailgylchir.

O ran ailgylchu caniau, ceir dau fin arbennig yn ardal y bwyty eisoes. Fodd bynnag, mae'r rhain yn peri rhai anawsterau. Er enghraifft, er gwaetha'n hymdrechion, mae pobl yn dal i roi gwastraff nad yw'n alwminiwm yn y biniau hyn ac mae'n rhaid gwahanu'r deunyddiau cyn bod y contractiwr yn fodlon ei dderbyn. Byddaf yn trefnu i rywun weld pa mor ymarferol fyddai gosod biniau ychwanegol mewn mannau eraill yn yr adeilad a beth fyddai'r opsiynau o ran costau.

Yn fwy cyffredinol, mae Swyddfa'r Llywydd wedi sefydlu trefniadau ar gyfer ailgylchu deunyddiau eraill, gan gynnwys papur a phapurau newydd, cetrysau toner, cardiau Nadolig a choed Nadolig ac o ganlyniad i hynny y llynedd, llwyddwyd i sicrhau gostyngiad o 66,000 litr y mis yn y gwastraff a anfonwyd i safleoedd tirlenwi.

### Mabwysiadu Logo Corfforaethol

**C3 Peter Black:** Pa gamau sydd wedi'u cymryd tuag at fabwysiadu logo corfforaethol ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru? (OAQ14927) ***Trosglwyddwyd ar gyfer ateb ysgrifenedig.***

**Y Dirprwy Lywydd:** Mae is-grwp celfyddydau Pwyllgor y Tŷ a Phwyllgor y Tŷ ei hun wedi hynny, wedi ceisio bwrw ymlaen gyda'r mater hwn. Bu ymgynghori eang gydag Aelodau a thrafodaethau gyda'r Llywydd ynghylch y dyluniadau gwreiddiol a gyflwynwyd gan VW Design, dyluniadau dilynol a gyflwynwyd ganddynt a dyluniad arall a gyflwynwyd gan yr uned gartograffeg fewnol. Teimlwyd bod y diwethaf o'r rhain yn symbol o'r gorffennol Celtaidd yn hytrach nag o Gymru'r dyfodol. Teimlwyd yn gyffredinol y dylai'r logo gynrychioli'r ddraig ar ffurf graffeg ond bod y dyluniad gwreiddiol o'r ddraig a gyflwynwyd gan VW Design yn cyfleu delwedd ymosodol, a theimlwyd bod honno'n anaddas.

Rydym yn awr mewn sefyllfa i wahodd VW Design a'r uned gartograffeg fewnol i ddatblygu logo wedi'i seilio ar ddraig.

## Gwerthu Nwyddau yng Nglanfa'r Cynulliad

**C4 Owen John Thomas:** Pa mor llwyddiannus y mae'r fenter o werthu nwyddau wedi bod yng Nglanfa'r Cynulliad? (OAQ15019) [W] ***Trosglwyddwyd ar gyfer ateb ysgrifenedig.***

**Y Dirprwy Lywydd:** Agorodd y siop yn y Lanfa ddydd Mawrth 27 Tachwedd 2001, i Aelodau'r Cynulliad, staff y Cynulliad, grwpiau addysgiadol, ymwelwyr tramor ac aelodau'r cyhoedd.

Hyd yn hyn, ers 27 Tachwedd 2001, mae'r Cynulliad yn y Lanfa wedi croesawu 1,026 o ymwelwyr drwy'r drws. O'r cyfanswm hwn, prynodd 297 o ymwelwyr nwyddau, sy'n golygu bod bron 30 y cant o'r ymwelwyr wedi prynu nwyddau o siop y Cynulliad yn y Lanfa. Gwariwyd £2,647.02 yn y siop sy'n gyfystyr â £8.91 y cwsmer ar gyfartaledd.

Mae adborth y cwsmeriaid, yn nhermau ystod, ansawdd a'r modd yr arddangoswyd y nwyddau, wedi bod yn gadarnhaol iawn. Er mwyn gwneud y gorau o'r cyfleoedd gwerthu, mae'r nwyddau hefyd ar gael o siop y Cynulliad Cenedlaethol ar y fewnrwyd.

Ychydig iawn o waith hyrwyddo allanol a wnaethpwyd adeg agor y siop, felly mae ffigurau gwerthiant siop y Cynulliad yn ddibynnol ar y nifer o bobl sy'n ymweld â'r Cynulliad yn y Lanfa. Rhaid cofio ein bod ar hyn o bryd yn y tymor llai prysur, ar adeg pan fo'r niferoedd sy'n ymweld â Bae Caerdydd yn disgyn yn aruthrol. Yn ogystal, nid oes arwydd wedi ei osod o flaen adeilad y Cynulliad yn y Lanfa hyd yn hyn.